# Ffilm Cymru Wales x Media Cymru

## Canllawiau ar gyfer gwneud cais i Gronfa Datblygu Gwyrddio'r Sgrîn 2024

### Cynnwys


***Cwmpas*** **.......... 2**

***Pwy sy'n cael gwneud cais?*** **.......... 3**

***Eithriadau*** **.......... 4**

***Prosiectau cymwys*** **.......... 4**

***Hygyrchedd*** **.......... 5**

***Rheoli cymorthdaliadau*** **.......... 5**

**Cymorth Ariannol Lleiaf .......... 5**

***Meini prawf asesu prosiect a chwestiynau am wneud cais*** **.......... 6**

***Cymorth gyda Phrosiectau*** **.......... 12**

***Dyddiadau briffio a chefnogaeth*** **.......... 13**

Mae Ffilm Cymru Wales wedi ymrwymo i hyrwyddo sector ffilm cynaliadwy sy'n gynhwysol, yn arloesol ac yn wyrdd. Nod Media Cymru yw cefnogi twf sector cyfryngau llewyrchus Prifddinas-Ranbarth Caerdydd drwy fuddsoddi mewn ymchwil a datblygu (Y&D) i gyflwyno arloesedd rhagorol.

Mae Cronfa Datblygu Gwyrddio’r Sgrîn Ffilm Cymru Wales x Media Cymru yn galluogi mentrau yng Nghymru i wneud cais am swm rhwng £25,000 a £50,000 i ymchwilio a datblygu cynnyrch, gwasanaethau a phrosesau gwyrdd sy'n cael eu sbarduno gan arloesedd ym maes ffilm a theledu sy'n ymateb i'r blaenoriaethau yn y Fargen Newydd Sgrîn: Cynllun Trawsnewid i Gymru. Bydd y gronfa yn rhoi cyfle i wneud gwaith ymchwil a datblygu atebion cynaliadwy i heriau sero net a datgarboneiddio'r sector sgrîn yng Nghymru.

## Cwmpas

Nod y gystadleuaeth hon yw i brosiectau ddarparu atebion cynaliadwy i heriau sero net a datgarboneiddio'r sector, gan ymateb i'r blaenoriaethau yn y Fargen Newydd Sgrîn: Cynllun Trawsnewid i Gymru.

Mae gennym ddiddordeb arbennig yn y canlynol:

- Symud i ynni adnewyddadwy mewn stiwdios, swyddfeydd a thai ôl-gynhyrchu, cael gwared yn raddol ar ddiesel ar gyfer generaduron a manteisio i’r eithaf ar effeithlonrwydd ynni ar setiau a lleoliadau.
- Ailfeddwl trafnidiaeth drwy fapio'r her, cael gwared ar gerbydau diesel, lleihau teithio a symud dulliau teithio i'r rhai sy'n defnyddio ynni adnewyddadwy.
- Dull cylchol o fynd i'r afael â deunyddiau a gwastraff bwyd drwy fonitro gwell i leihau gwastraff, blaenoriaethu cyflenwyr lleol ac opsiynau carbon isel ac ailddefnyddio deunyddiau ac asedau cynhyrchu.
- Casglu gwybodaeth a chydweithio, gan gynnwys asesu cynaliadwyedd asedau a ddefnyddir wrth gynhyrchu, cymorth i gyflenwyr gwyrdd a chreu cyllidebau carbon ar gyfer cynhyrchu.
- Gosod a gwrthbwyso modelau busnes.

Erbyn diwedd y prosiect, byddem yn disgwyl i chi fod wedi datblygu prototeip sy'n gweithio neu gynnyrch sylfaenol hyfyw fel allbwn o'ch gwaith ymchwil a datblygu. Hoffem ni hefyd i

chi fod wedi datblygu cynllun busnes cadarn, rhagolwg llif arian a chyflwyniad cryno (*pitch deck)* yn barod ar gyfer buddsoddwyr.

## Pwy sy’n cael gwneud cais?

Er mwyn arwain prosiect, mae'n rhaid i'ch sefydliad:

- fod yng Nghymru
- cael syniad ymchwil a datblygu
- gweithredu yn y cyfryngau neu ddangos bod y gwaith ymchwil a datblygu o fudd uniongyrchol i sector y cyfryngau
- bod ar gael i gynnal y prosiect ymchwil a datblygu rhwng 30 Medi 2024 a Medi 2025
- cyflwyno un cais yn unig i bob menter fel arweinydd prosiect. Gall eich sefydliad gael ei restru fel aelod tîm ategol ar hyd at dri chais.
- rhoi sicrwydd bod gennych brosesau ariannol priodol ar waith i gyflawni'r prosiect yn unol â thelerau ac amodau cyllido
- rheoli unrhyw is-gontractau angenrheidiol gydag unrhyw drydydd parti
- cytuno i fod yn arweinydd cytundebol i Gytundeb Grant Media Cymru os byddwch yn llwyddiannus
- arwain, rheoli a chyflawni’r prosiect yn unol â’r cynnig a’r gyllideb y cytunwyd arnynt
- cadw cofnodion ariannol priodol o'r holl wariant
- bod yn bwynt cyswllt ar gyfer adrodd a monitro ar y prosiect, gan gysylltu â staff penodol Ffilm Cymru Wales a Media Cymru.

Byddwn yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar brif fentrau, gyda'r canlyniadau'n cael eu hystyried yn erbyn maint y cronfeydd a gweithgareddau’r prosiect. Rhaid i'r prif ymgeisydd (ac unrhyw drydydd parti) gyflwyno dogfennau ategol ar gais.

Rydym yn croesawu ceisiadau o bob maint a math o sefydliadau gan gynnwys microfusnesau, unig fasnachwyr a gweithwyr llawrydd.

Gyda'n holl weithgarwch, rydym yn awyddus i gyrraedd y gynulleidfa ehangaf bosib er mwyn sicrhau ein bod yn clywed y syniadau gorau. Rydym yn cydnabod bod buddsoddi mewn

ymchwil a datblygu yn rhy aml yn cylchdroi mewn rhwydweithiau nad ydynt yn cynrychioli ein cymuned ehangach yn ei holl amrywiaeth cymdeithasol a diwylliannol. Rydym am newid y patrwm hwnnw ac yn gweithio i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd strwythurol hwn yn ein sefydliad ac yn y sector yn ehangach. Y gobaith hefyd yw ysbrydoli gwaith ymchwil a datblygu trawsnewidiol a chynhwysol a fydd yn herio'r ffyrdd presennol o gynhyrchu a meddwl.

## Eithriadau

Nid yw'r Gronfa Gwyrddio’r Sgrîn yn addas ar gyfer:

- creu cynnwys (er enghraifft, ffilmiau byr, ffilmiau a phenodau peilot)
- comisiynau celf untro
- astudiaethau dichonoldeb
- datblygu hydrogen symudol
- comisiynu gweithgareddau busnes fel arfer, er enghraifft datrysiad cynaliadwy newydd nad oes ganddo fantais arloesol i'r ffordd y mae eich cwmni fel arfer yn mynd i'r afael â phrosiectau newydd
- ceisiadau nad oes ganddynt dystiolaeth bod disgwyl i'r arloesedd arfaethedig arwain at effaith economaidd sylweddol a chadarnhaol
- ceisiadau nad oes ganddynt ymchwil a datblygu neu arloesedd.

## Prosiectau cymwys

Mae'n rhaid i'ch prosiect:

- fod â chyfanswm costau prosiect a chais am gyllid grant o ddim mwy na £50,000
- dod i ben erbyn mis Medi 2025
- bara hyd at 12 mis
- cael ei arwain gan un fenter
- datgan eich sefyllfa Rheoli Cymorthdaliadau.

media cymru

## Hygyrchedd

Os oes gennych chi ofynion penodol a fyddai'n gwneud y broses ymgeisio’n fwy hygyrch (fel cyngor, cymorth ysgrifennu neu gymorth darllen), neu os hoffech chi drafod fformatau eraill (fideo neu sain, naratif llais, ffont mawr, testun plaen neu iaith arall), ewch ati i ebostio media.cymru@caerdydd.ac.uk neu ffonio 02922 511 434.

## Rheoli cymorthdaliadau

Cymhorthdal yw cymorth ariannol a ddarperir gan awdurdod cyhoeddus i fenter sy’n rhoi mantais economaidd iddi, sy’n golygu na ellid bod wedi cael cymorth cyfatebol ar delerau masnachol. Mae cymorthdaliadau a ddyfernir yn unol â Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 yn darparu ffordd gyfreithlon i arian cyhoeddus gefnogi gweithgarwch economaidd.

Cynigir Cronfa Datblygu Gwyrddio’r Sgrîn fel Cymhorthdal Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA), ar ffurf grant arian parod gan Brifysgol Caerdydd a chymorth ychwanegol gan Sefydliad Alacrity a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd.

**Cymorth Ariannol Lleiaf**

O dan reolau MFA, gall awdurdodau cyhoeddus ddyfarnu hyd at £315,000 o gymorth ariannol i sefydliad dros gyfnod o dair blynedd ariannol. Er mwyn cadarnhau eich bod yn gymwys, rydym yn gofyn i chi gadarnhau nad yw'r cyllid grant a gewch yn mynd â chi dros eich uchafswm o £315,000 ar gyfer MFA ar draws y 'cyfnod cymwys' o dair blynedd ariannol.

Yn y cais, gofynnir i chi ddatgan eich bod yn gymwys i dderbyn cyllid fel MFA. Er mwyn gweld a ydych yn gymwys, rydym yn gofyn i chi gadarnhau bod ychwanegu ein cyllid grant ynghyd â £2,500 arall yn cyfateb i’r cymorth mewn grant arian parod ychwanegol fel y darperir gan Sefydliad Alacrity a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd (PDR). Mae manylion y gefnogaeth wedi'u hamlinellu yn yr adran Cymorth gyda Phrosiectau isod. Sicrhewch nad yw'r cyfanswm gwerth yn fwy na'ch terfyn o £315,000 ar gyfer MFA ar draws y 'cyfnod cymwys' o dair blynedd ariannol.

*Os yw'r swm hwn yn fwy na £315,000, cysylltwch â media.cymru@caerdydd.ac.uk gan y gallech fod yn gymwys ar gyfer y Cynllun Cymhorthdal Symlach ar gyfer Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd.*

Y 'cyfnod cymwys' hwn yw:

- y rhan o'r flwyddyn ariannol gyfredol a ddaeth i ben ar 30 Mawrth (h.y o fis Ebrill) a aeth heibio
- y ddwy flynedd ariannol yn union cyn y flwyddyn ariannol gyfredol.

Wrth asesu'r cymorth blaenorol y gallech fod wedi'i gael, ystyriwch y canlynol:

- Cymorth Ariannol Lleiaf
- Cymorth De Minimis
- Symiau Bach o Gymorth Ariannol (SAFA) a roddir fel Hawliau Tynnu Arian Arbennig (SDR)
- Cymorth Ariannol Gwasanaethau Er Budd Economaidd y Cyhoedd (SPEI)

Dylai llythyrau dyfarnu neu hysbysu gan awdurdodau cyhoeddus nodi sail a dyddiad y dyfarniad yn glir. Os oes gennych unrhyw amheuaeth, dylech gysylltu â'r awdurdod cyhoeddus sy'n rhoi'r cymorth i gadarnhau ei natur. Nid oes angen i chi gynnwys cymorth a roddir ar sail wahanol, er enghraifft grant a roddir o dan Reoliad Eithriad Bloc Cyffredinol Cymorth Gwladwriaethol yr UE (GBER).

Rhaid i gymorth gynnwys pob sefydliad yn strwythur eich grŵp sy'n gweithredu o dan 'reolaeth gyffredin'. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn Atodiad 1 y Canllawiau Statudol ar gyfer Deddf Rheoli Cymorthdaliadau'ry DU 2022, para 15.40-15.46, tt. 175-176.

Os nad ydych yn siŵr am eich rhwymedigaethau o dan Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau'r DU 2022, dylech gael cyngor cyfreithiol annibynnol. Ni allwn roi cyngor ar gymhwysedd unigol neu rwymedigaeth gyfreithiol.

## Meini prawf asesu prosiect a chwestiynau am wneud cais

Asesir cynigion eich cais mewn pum maes allweddol:

media cymru

1. **A yw'r syniad ymchwil a datblygu yn cyflawni'r briff/cwmpas gwyrdd? (10 pwynt)**

Rydym am i chi fynegi cyfle, her neu fwlch yn glir yn y farchnad amgylcheddol yn y sector Ffilm a Theledu sy'n ymateb i'r Cynllun Trawsnewid ar gyfer cynhyrchu cynaliadwy yng Nghymru. Gellir arwain y gwaith o gyflawni'r prosiect hwn gan y broses ymchwil a datblygu, a dylai'r ymgeisydd fod yn agored i ble mae'r gwaith yn mynd â nhw. Ar gyfer y gronfa hon, dylai'r ymgeisydd fod wedi gwneud rhywfaint o waith o ran ymarferoldeb ei syniad posibl.

Ni fyddwn yn ariannu'r gwaith o gomisiynau celf untro, yn ariannu'r gwaith o ddarparu gwyliau sengl/cyngherddau neu beilotiaid sy'n canolbwyntio ar gynnwys ar gyfer cynyrchiadau ffilm/teledu. Nid ydym ychwaith yn ystyried datblygu apiau gwyrdd na chynigion hydrogen symudol.

Rydym ni am i chi roi esboniad clir o'r syniad ar gyfer y cynnyrch, y gwasanaeth neu'r profiad yr hoffech ei ddatblygu trwy'r cyllid ymchwil a datblygu hwn. Dywedwch wrthym hefyd pam mae hyn yn bwysig, beth yw'r her neu'r cyfle y byddai'r gwaith hwn yn ei gefnogi. Hoffem hefyd i chi fynegi unrhyw waith dichonoldeb rydych wedi'i gwblhau a fyddai'n cefnogi eich cynnig.

Rydym yn diffinio ymchwil a datblygu fel proses greadigol a systematig o gynnal ymchwil wrth i chi ddatblygu eich cynnyrch, gwasanaeth neu brofiad newydd. Mae ymchwil a datblygu'n aml yn dechrau gyda phroblem, angen neu gyfle adnabyddadwy, yn hytrach na chymryd datrysiad yn ganiataol. Yna mae'r broses ymchwil a datblygu yn eich caniatáu i nodi'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r broblem neu angen hwnnw. Efallai fod gennych chi syniadau da am y ffordd orau o wneud hyn eisoes ond dylech ddisgwyl i'r rhain newid neu esblygu fel rhan o'r broses ymchwil a datblygu.

Dyma eich cyfle i amlinellu'r meysydd gwaith yr hoffech eu harchwilio fel rhan o'r prosiect hwn. Amlinellwch yr hyn yr hoffech ei wneud, sut yr ydych yn bwriadu ei wneud (eich 'methodolegau' neu'ch proses ymchwil) a phwy fydd yn cyflwyno'r gweithgareddau hyn, gan gynnwys unrhyw gymorth sydd ei angen arnoch gan sefydliadau eraill. Byddwch yn realistig o ran yr hyn y gallwch ei gyflawni o fewn yr amserlen gyda'r adnoddau sydd ar gael.

2. **A yw'r cynnig yn gyraeddadwy ac yn realistig? (10 pwynt)**

Ystyriwch yr hyd, y gyllideb a'r amserlen a awgrymir ar gyfer gweithgareddau. Mae angen cwblhau'r prosiectau o fewn 6-12 mis. Rydym ni am i chi wneud cynllun amlinellol ar gyfer eich gwaith ymchwil a datblygu sy'n manteisio ar arbenigedd priodol ac yn ystyried ymrwymiadau eraill ar eich amser sy'n rhoi hyder i ni y gallwch gyflawni'r gwaith o fewn cyfnod arfaethedig y prosiect.

Dylech ystyried y 16 awr a awgrymir o gymorth gan PDR a Sefydliad Alacrity yn eich cynllun hefyd.

**3. A yw'r cynnig yn cynnig gwerth am arian? (10 pwynt)**

Ystyriwch pa mor dda y mae gwariant wedi'i ystyried, eglurder dyrannu adnoddau i bob eitem ac a oes modd cyflawni gwerth am arian.

Ar y cam ymgeisio byddwn yn gofyn am gostau dangosol ac uchafswm y grant arian parod yr ydych yn ei geisio yn unig. Rhaid i'r holl gostau fod yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni eich prosiect.

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn gofyn i chi ddarparu cyllideb fanylach a chyfiawnhad byr yn amlinellu natur y costau hyn. Byddwn hefyd yn cytuno ar restr o daliadau gyda chi a all gynnwys taliad grant ymlaen llaw.

I hawlio taliad terfynol eich grant, byddwn yn gofyn i chi ddangos eich bod mewn gwirionedd wedi mynd i'r holl gostau hyn yn ystod cyfnod y grant drwy ddarparu datganiad wedi'i lofnodi i ni wedi'i ategu gan restr o'ch holl wariant.

Dylech ystyried y gwaith yr hoffech ei gyflawni a phwy fydd yn gwneud y gwaith hwn. Sylwer hefyd bod gofyniad a argymhellir i hyd at dri aelod o'ch tîm fod yn bresennol yn yr 16 awr orfodol o gymorth gan PDR a Sefydliad Alacrity a sicrhau bod yr amser ar gyfer hyn wedi'i gynnwys yng nghynllun eich prosiect.

**4 A fydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd? (10 pwynt)**

Ystyriwch i ba raddau y mae'r cynnig yn cefnogi blaenoriaethau'r Fargen Newydd Sgrîn: Cynllun Trawsnewid Cymru, yn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol, yn cymharu ag atebion eraill yn y farchnad ac mae ganddo'r potensial i gynyddu.

Mae angen i chi ystyried effaith amgylcheddol eich gweithgarwch ymchwil a datblygu. Gall effeithiau gynnwys:

- Cyfraniad at dargedau sero net.
- Cael effaith amgylcheddol gadarnhaol arnoch chi/eich cwmni/y diwydiant ehangach.
- Cynyddu ymwybyddiaeth y gynulleidfa o'r argyfwng hinsawdd.

Gallai eich ymateb gyfeirio at y canlynol:

- Llai o effaith amgylcheddol ar eich cwmni a'r sector o ganlyniad i'r gwaith hwn.
- Gostwng allyriadau.
- Defnyddio trafnidiaeth yn llai aml.
- Lleihau neu ail-bwrpasu deunyddiau.
- Prosesau mwy effeithlon o ran ynni.

5. **A fydd y cynnig yn cael effaith economaidd a/neu gymdeithasol gadarnhaol? (10 pwynt)**
   Ystyriwch effaith economaidd bosibl eich prosiect. Rydym am gefnogi syniadau sydd â'r potensial ar gyfer cynaliadwyedd ariannol hirdymor. Un o brif ysgogwyr y gwaith hwn yw darparu ffrydiau incwm ychwanegol ac eiddo deallusol i unigolion/cwmnïau fanteisio arnynt. Bydd yr effaith economaidd yn wahanol i bob ymgeisydd a gallai amrywio o weithiwr llawrydd sy'n ceisio archwilio ffyrdd arloesol o fynd at dechnoleg werdd newydd i'w gwneud yn fwy cyflogadwy i gwmnïau sydd am ddefnyddio'r cam sbarduno hwn i archwilio prosesau eiddo deallusol newydd. Yr allwedd yw bod yr ymgeisydd wedi ystyried effaith bosibl ei gynnig.

a. **Effaith economaidd (5 pwynt)**

Gall budd economaidd tymor hwy eich gweithgaredd ymchwil a datblygu fod fel a ganlyn:

- Mae'n galluogi twf eich cwmni neu ymarfer (neu greu cwmni newydd) trwy gefnogi datblygiad cysyniad, cynnyrch, gwasanaeth neu brofiad newydd.

- Mae'n rhoi mantais gystadleuol i chi drwy gynyddu eich effeithlonrwydd.
- Mae'n cynnig y potensial ar gyfer ffrydiau refeniw ychwanegol yn y dyfodol.
- Mae’n creu buddion economaidd ehangach yn sector y cyfryngau yng Nghymru.

Gallai eich ymateb gyfeirio at y canlynol:

- Y marchnadoedd targed ar gyfer y cynnyrch, y gwasanaeth neu'r profiad rydych chi am ei greu ac unrhyw farchnadoedd posibl eraill (domestig, rhyngwladol neu'r ddau).
- Maint y marchnadoedd targed ar gyfer y cynnyrch, y gwasanaeth neu'r profiad rydych chi am ei greu.
- Cynaliadwyedd ariannol hirdymor y cynnyrch, y gwasanaeth neu'r profiad y byddwch chi'n ei greu trwy eich ymchwil a datblygu.
- Llai o gostau/effeithlonrwydd cynhyrchu uwch.
- Rhagor o refeniw trwy werthiannau.
- Mwy o refeniw o drwyddedu.
- Mwy o refeniw o allforion.
- Model busnes newydd.
- Ansawdd gwell i gynhyrchion, gwasanaethau a/neu brofiadau.
- Cynyddu cyflogaeth staff eraill.
- Datblygu eiddo deallusol newydd.
- Manteisio i’r eithaf ar eiddo deallusol presennol.

Po fwyaf diriaethol ac uchelgeisiol yw'r buddion hyn, y cryfaf y bydd prosiect yn sgorio yn erbyn y meini prawf hyn.

**b. Effaith gymdeithasol a diwylliannol (5 pwynt)**

Mae angen i chi ystyried effaith gymdeithasol a diwylliannol eich gwaith ymchwil a datblygu. Gallai'r effeithiau yma a gwerth cymdeithasol ychwanegol gynnwys:

- Galluogi trosglwyddiad cyfiawn i Net Zero.
- Cyrraedd marchnadoedd nas gwasanaethir yn ddigonol.
- Cynyddu mynediad cyfartal i'r sector.
- Cynyddu lefelau lles neu ansawdd bywyd pobl.

- Cynyddu ymwybyddiaeth ryngwladol o sector Cymru a meithrin cydweithio rhyngwladol.

## Cwestiynau am gyflwyno cais

**Sylwch fod yn rhaid cyflwyno pob cais drwy’r ffurflen ar-lein ar ein gwefan:**
www.media.cymru/innovation-pipeline

Os hoffech chi baratoi eich atebion all-lein, dyma'r cwestiynau allweddol*:

1. **Teitl y prosiect.**

2. **Cyflwynwch eich hun/cwmni/sefydliad a'r gwaith rydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd (uchafswm o 300 gair).**

3. **Ysgrifennwch grynodeb o'r cynnyrch gwyrdd, y gwasanaeth neu’r broses yr hoffech chi ei datblygu drwy'r prosiect ymchwil a datblygu hwn (uchafswm o 300 gair).**

4. **Dywedwch wrthynm ni am unrhyw waith rydych chi wedi'i wneud i asesu dichonoldeb y syniad yr hoffech chi ei ddatblygu (uchafswm o 300 gair).**

5. **Dywedwch wrthym ni am y gweithgareddau yr hoffech chi eu cynnal yn rhan o’r prosiect ymchwil a datblygu hwn a sut bydd hyn yn cefnogi’r gwaith o ddatblygu cynnyrch gwyrdd, gwasanaeth neu broses (uchafswm o 300 gair).**

6. **Beth yw hyd arfaethedig y prosiect mewn misoedd?**
   Dylai eich prosiect bara rhwng 6 a 12 mis (£25,000) neu rhwng 9 a 12 mis (mwy na £25,000 ond hyd at £50,000).

7. **Dangoswch sut byddwch chi’n cyflawni gweithgareddau eich prosiect ymchwil a datblygu o fewn yr amserlen a gynigiwyd gennych chi.**
   Mae'n bwysig eich bod yn dangos amserlen glir a chyraeddadwy ar gyfer cyflawniadau allweddol. Gallech ddefnyddio dyddiadau allweddol a cherrig milltir y prosiect i ateb y cwestiwn hwn.

8. **Beth yw eich cyllideb amcangyfrifedig ar gyfer y cyfnod ymchwil a datblygu?**
   Rydyn ni'n cynnig rhwng £25,000 a £50,000 yn rhan o'r cylch cyllido hwn.

9. **Rhowch syniad o'r math o gostau rydych chi'n debygol o fynd iddyn nhw i gyflawni eich prosiect yn y cyfnod ymchwil a datblygu.**
   Cyllideb dros dro yw hon. Bydd gofyn i chi ddarparu cyllideb fanylach yn ddiweddarach os bydd eich cais yn llwyddiannus, gydag arweiniad yn ôl yr angen.

10. **Eglurwch sut gallai eich prosiect ymchwil a datblygu gael effaith economaidd gadarnhaol. Gallwch chi sôn am yr effaith arnoch chi, eich cwmni neu'r sector (uchafswm o 300 gair).**
    Gallai eich ateb gyfeirio at y canllawiau ymgeisio uchod.

11. **Eglurwch sut bydd eich prosiect yn cael effaith gymdeithasol a diwylliannol gadarnhaol (uchafswm o 250 gair).**
    Gweler y canllawiau ar gyfer gwneud cais uchod.

12. **Eglurwch sut bydd eich prosiect yn cael effaith amgylcheddol gadarnhaol (uchafswm o 500 gair).**
    Gweler y canllawiau ar gyfer gwneud cais uchod.

    *I weld y cais llawn, ewch i'r ffurflen ar-lein ar ein gwefan: www.media.cymru/innovation-pipeline

## Cymorth gyda Phrosiectau

Os byddant yn llwyddiannus, bydd derbynwyr grant yn elwa o bedair sesiwn orfodol (cyfanswm o wyth awr), yn ogystal â sesiwn ddewisol (dwy awr) gydag ymgynghoriaeth dylunio o'r radd flaenaf a chyfleuster ymchwil cymhwysol PDR. Diben y sesiynau hyn fydd eich cefnogi ar eich taith arloesi, a byddant yn seiliedig ar fethodoleg sefydledig ar gyfer datblygu dulliau ymchwil a datblygu ar gyfer prosiectau:

**Sesiwn un:** Herio a chynllunio.
**Sesiwn dau:** Gwneud synnwyr o ddata ymchwil.
**Sesiwn tri:** Syniadau a phrototeipiau.
**Sesiwn pedwar:** Canfyddiadau a'r camau nesaf.

Hefyd bydd pedair sesiwn cymorth orfodol (cyfanswm o wyth awr) gan Sefydliad Alacrity a fydd yn rhannu arbenigedd datblygu busnes a masnacheiddio ar gyfer prosiectau.

Bydd prosiectau hefyd yn cael eu cefnogi a'u monitro gan y Rheolwr Cynaliadwyedd o Ffilm Cymru Wales a Chynhyrchydd o Media Cymru.

## Dyddiadau briffio a chefnogaeth

**20 Mai 2024:** Y gronfa'n agor ar gyfer ceisiadau.
**03 Mehefin 2024:** Digwyddiad ymgysylltu wyneb yn wyneb â'r diwydiant yn Tramshed Tech (ebost Louise@FfilmCymruWales.com).
**28 Mehefin 2024:** Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau (hanner dydd).
**wythnos yn dechrau 19 Awst 2024:** Rhoi gwybod i ymgeiswyr am ddyfarniadau.
**30 Medi 2024:** Prosiectau yn dechrau.

Os oes gennych ddiddordeb mewn trefnu sesiwn un i un, cysylltwch â Rheolwr Cynaliadwyedd Ffilm Cymru, Louise Dixey: Louise@ffilmcymruwales.com neu greeningthescreen@ffilmcymruwales.com